Cwrs Sylfaenol Ceredigion
Uned Un Deg Saith

Trafod pethau sy wedi digwydd
Discussing things which have happened

Dw i wedi gweld *Avatar*
Dw i wedi gwneud y gwaith cartre
Dw i wedi darllen *The Hobbit*
Dw i wedi bod yn Sbaen

Dw i ddim wedi gweld *Avatar*
Dw i ddim wedi gwneud y gwaith
Dw i ddim wedi darllen *The Hobbit*
Dw i ddim wedi bod yn Sbaen

Ydych chi wedi cael digon?
Wyt ti wedi bwyta gormod?
Wyt ti wedi anghofio?
Wyt ti wedi meddwi?
Ydw / Nac ydw

Ydy e wedi cyrraedd?
Ydy, mae e wedi cyrraedd
Nac ydy, dyw e ddim wedi cyrraedd

Ydyn nhw wedi cyrraedd?
Ydyn, maen nhw wedi cyrraedd
Nac ydyn, dyn nhw ddim wedi cyrraedd

Deialog

Sandra:	Wyt ti wedi clywed?
Ffred:	Nac ydw. Beth sy?
Sandra:	Dw i wedi ennill!
Ffred:	Ennill beth?
Sandra:	Dw i wedi ennill ar y loteri!
Ffred:	Cer o 'ma! Faint enillaist ti?
Sandra:	Can mil o bunnoedd.
Ffred:	Paid sôn! Dw i ddim yn dy gredu di.
Sandra:	Ydw, wir i ti. Ces i lythyr y bore 'ma.
Ffred:	Sandra, wnei di mhriodi i?

Geirfa

wedi meddwi - drunk
ennill (enill-) - to win
paid sôn! - don't say!
Cer o 'ma! - Get away!
credu (cred-) - to believe
Wir i ti! - Honest to God!
priodi (priod-) - to marry
llythyr - letter
Wnei di ..? - Will you ..?
erioed - ever
diddorol - interesting
cyrraedd (cyrhaedd-) - to arrive/reach

Cwrs Sylfaenol Ceredigion
Uned Un Deg Saith

Gwaith Cartre

Cyfieithwch:

1. I have seen the film
2. I saw the film
3. I have read the book
4. I did read the book
5. I have done the homework
6. I did the homework
7. I have arrived
8. I arrived
9. He has gone
10. He went
11. He has had enough
12. He had enough
13. We have not gone
14. We did not go

Atebwch y cwestiynau yma:
1. Ydych chi wedi bod yn Sbaen erioed?

_____

2. Ydych chi wedi darllen llyfr gan Charles Dickens erioed?

_____

3. Ydych chi wedi bwyta rhywbeth diddorol erioed?

_____

4. Ydych chi wedi sgïo erioed?

_____

Pwyntiau i'w cofio

1. Remember the different ways of saying things in the past:

Dw i wedi gweld = I have seen
Gwelais i = I saw / I did see

See Atodiad 1 (p. 156) for a fuller explanation of the difference between the 'simple and 'long' verb forms.

2. Many people will reply with **Do / Naddo** to a question beginning with:

Wyt ti wedi ..? / Ydych chi wedi ..?